**Rheol 10(2)(d)**

**DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992**

**RHEOLAU TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD (GWEITHDREFN CEISIADAU A GWRTHWYNEBIADAU) (CYMRU A LLOEGR) 2006**

**CAIS AM ORCHYMYN ARFAETHEDIG RHEILFFORDD FYNYDD ABERHONDDU (RHEILFFORDD YSGAFN)**

(Gorchymyn i awdurdodi Rheilffordd Cwm Rheidol i weithredu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu ar ôl cwblhau cytundeb gwerthu asedau)

# ADRODDIAD YMGYNGHOROL

**Cynnwys** **Tudalen**


1. Cyflwyniad………………………………………………………………………………………… 3
2. Cefndir a manteision……………………………………………………………………….. 3
3. Gweithrediadau…………………………………………………………………………………… 4
4. Ymgynghori statudol ………………………………………………………………………….. 4
5. Ymgynghori anstatudol ……………………………………………………………………... 4
6. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais GDTG ……………………………………………………. 5
7. Casgliad……………………………………………………………………………………………. 5

1. **Cyflwyniad**

1.1. Ers 1980 mae Brecon Mountain Railway Company Limited (BMR) wedi'i awdurdodi i weithredu a chynnal Rheilffordd Fynydd Aberhonddu drwy Orchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980 (y Gorchymyn Gwreiddiol). Mae'r Gorchymyn Gwreiddiol wedi caniatáu i'r BMR weithredu a chynnal rheilffordd teithwyr tua 6 milltir o hyd o Orsaf Pant i Dorpantau.

1.2. Mae Vale of Rheidol Railway Limited (VoR) yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am Orchymyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 i drosglwyddo awdurdod statudol ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw Rheilffordd Fynydd Aberhonddu i'r VoR ar ôl cwblhau cytundeb pryniant asedau.

2. **Cefndir a manteision**

2.1. Cafodd Rheilffordd Fynydd Aberhonddu ei chreu fel prosiect treftadaeth dros 40 mlynedd yn ôl pan ddechreuwyd chwilio i ddod o hyd i safle addas i adeiladu a gweithredu rheilffordd stêm gan ddefnyddio locomotifau a gasglwyd o bedwar ban y byd.

2.2. Dylanwadwyd yn drwm ar y dewis o leoliad ym Merthyr Tudful gan dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal. Ar un adeg, Merthyr Tudful oedd y dref gwneud haearn fwyaf yn y byd; roedd y rhan fwyaf o'r rheilffyrdd cynnar iawn yn defnyddio cledrau wedi'u rholio ym melinau Merthyr. Gwelodd Merthyr, ym 1804, y rhediad prawf o locomotif rheilffordd stêm cyntaf y byd a adeiladwyd gan Richard Trevithick.

2.3. Mae'r rheilffordd bresennol yn rhedeg am tua chwe milltir o'i therfyn deheuol yng ngorsaf Pant, ger hen chwareli Morlais a arferai cyflenwi calchfaen i'r gweithfeydd haearn yn yr ardal, eto drwy rheilffyrdd. Mewn gwirionedd, roedd yna reilffyrdd ym mhobman, i gyd wedi'u hadeiladu i gynnal y gweithgareddau dwys a gynhyrchwyd gan y diwydiant haearn a'r pyllau yn yr ardal. Mae terfynfa ogleddol y reilffordd yn Nhorpantau, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan roi mynediad i ddefnyddwyr i ardal sydd fel arall yn anodd ei chyrraedd.

2.4. Mae'r holl waith gweithredu a chynnal a chadw ar y reilffordd yn cael ei wneud gan staff y reilffordd ei hun. Yn ogystal â'r gwasanaethu a'r atgyweirio arferol, mae locomotifau cyfan yn cael eu hailadeiladu gan ddefnyddio peiriannau sy'n dyddio'n ôl dros 100 mlynedd ond sydd eto'n dal i gyflawni tasg ddefnyddiol. Er enghraifft, adeiladwyd y turn olwyn a'r wasg hydrolig yn y 1890au ac maent yn dal i fod yn weithredol ac yn ddefnyddiol. Mae boeleri newydd yn cael eu cynhyrchu a hyd yn oed locomotifau cyflawn yn cael eu hadeiladu o'r newydd. Adeiladwyd yma yr holl gerbydau a'r wagenni a ddefnyddid.

2.5. Bu Rheilffordd Cwm Rheidol a Rheilffordd Fynydd Aberhonddu mewn perchnogaeth gyffredin am gyfnod ar ôl preifateiddio Rheilffordd Cwm Rheidol ym 1989. O dan hen berchnogaeth y

Rheilffyrdd Prydeinig (British Rail), caniatawyd i Reilffordd Cwm Rheidol ddirywio'n sylweddol i'r pwynt lle'r oedd cau yn bosibilrwydd difrifol. Bu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn llwyddiannus yn ei chais i gaffael Rheilffordd Cwm Rheidol, ac wedi hynny llwyddodd i'w hadfer yn dechnegol ac yn fasnachol i'r pwynt lle llwyddodd unwaith eto i weithredu'n annibynnol ar ôl 1996. Mae'r sylfeini hyn wedi galluogi Rheilffordd Cwm Rheidol i ffynnu. Mae wedi gallu gweithredu rhaglen barhaus o ddatblygiad sy'n parhau hyd heddiw, gydag agoriad diweddar ei hamgueddfa a chanolfan ymwelwyr newydd yng ngorsaf Aberystwyth.

2.6. Er dad-uno ffurfiol 1996, mae'r ddwy reilffordd wedi parhau i gynnal cysylltiadau agos. Mae'n hysbys bod rheilffyrdd treftadaeth wedi profi anawsterau gweithredol sylweddol ar ôl COVID a materion costau byw. Mae'r rhan fwyaf o'u hincwm yn deillio o gyllid a gynhyrchir gan ymwelwyr, ac nid yw Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn eithriad.

2.7. Diolch i rodd elusennol hael iawn, mae Rheilffordd Cwm Rheidol bellach mewn sefyllfa i aduno'r ddwy reilffordd ac i gynnal a datblygu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu mewn ffordd a fyddai'n llawer anoddach mewn amgylchedd masnachol annibynnol er budd ymwelwyr a staff.

**3. Gweithrediadau**

3.1. Mae'r BMR yn gweithredu gwasanaeth teithwyr am 166 o ddiwrnodau bob blwyddyn, fel arfer yn dechrau pythefnos cyn y Pasg ac yn gorffen ddiwedd mis Medi cyn ailddechrau eto yn ystod hanner tymor mis Hydref ac eto ym mis Rhagfyr gyda 20 o drenau Siôn Corn.

3.2. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mae'r VoR yn gofyn am yr awdurdod statudol y byddai'r GDTG yn ei roi i weithredu a chynnal Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn lle'r BMR.

**4. Ymgynghori statudol**

4.1. Mae Rheol 10(2)(d) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 yn gofyn am adroddiad sy'n crynhoi'r holl ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan gynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi ymgynghori â phawb a enwir yng ngholofn (2) o'r tablau yn Atodlenni 5 a 6 i'r Rheolau hynny lle ceisir awdurdod ar gyfer gwaith neu faterion eraill a ddisgrifir yng ngholofn (1) o'r tablau hynny, neu os na cheisir, esboniad o pam.

4.2. Yn yr achos hwn, nid oes unrhyw waith i'w awdurdodi ac nid oes ymgyngoreion Atodlen 5 a 6 perthnasol.

**5. Ymgynghori anstatudol**

5.1. Gan nad oes unrhyw waith i'w awdurdodi o dan y Gorchymyn na diwygiadau i'r ardal leol, ni fu unrhyw ymgynghoriadau lleol. Fodd bynnag, ar 26 Hydref 2023, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn cyhoeddi'r bwriad i brynu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu ac anfonwyd copi ymlaen llaw o'r cais at y canlynol:

5.1.1.Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful;

5.1.2.Cyngor Sir Powys

5.1.3.Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;

5.1.4.Cyngor Sgowtiaid Ardal Morgannwg Ganol;

5.1.5.Dŵr Cymru;

5.1.6.Cyfoeth Naturiol Cymru;

5.1.7.Gerald Jones, AS; a

5.1.8.Dawn Bowden, AS.

5.2. Er nad yw'n ofyniad ffurfiol, mae'r awdurdod cynllunio lleol hefyd wedi cael gwybod yn ysgrifenedig am y cais am y Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

**6. Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais GDTG**

6.1. Mae gwefan VoR yn cynnwys cyhoeddiad am y cais GDTG fel bod ymwelwyr â gwefan VoR yn cael gwybod am y cais. Mae copïau o'r cais a'r dogfennau ategol ar gael i lawrlwytho o'r wefan.

6.2. Mae cyhoeddiad dyblyg gyda dolen i wefan VoR wedi'i gyhoeddi ar wefan BMR.

**7. Casgliad**

7.1. Oherwydd natur gyfyngedig y cais hwn, a'r ffaith nad yw'n orchymyn gwaith, nid oes unrhyw ymgyngoreion Atodlen 5 na 6 perthnasol.